Cynllun gweithlu nyrsio

Cylchlythyr Gwanwyn 2023

GIG CYMRU NHS WALES
Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC)
Health Education and Improvement Wales (HEIW)

Mae tîm cynllun y gweithlu nyrsio yn eich croesawu i rifyn diweddaraf ein cylchlythyr, gan ddod â'r diweddariadau diweddaraf i chi ar ddatblygu cynllun gweithlu strategol ar gyfer nyrsio yng Nghymru.

Dechreuodd Cam 1 y cynllun ym mis Medi 2022 ac mae wedi dod i ben ddiwedd mis Mawrth 2023. Rydym bellach wedi trosglwyddo i gam 2.

Ffrwd Waith 1 - Galw a Chyflenwad.

Amcan: Darparu trosolwg galw a chyflenwad o nyrsio cofrestredig dros y 5 mlynedd nesaf gan ddefnyddio Adnodd Siâp y Gweithlu a Chyflenwi a fydd yn llywio cynllunio'r gweithlu.

Allbwn: Mae byrddau ac ymddiriedolaethau iechyd wedi cwblhau Offeryn Siâp y Gweithlu a Chyflenwi. Mae'r dadansoddiad data hyd yma wedi ein hysbysu bod cyfran gynyddol o'r boblogaeth nad yw o oedran gweithio. Hefyd, Mae'r gweithlu nyrsio wedi cynyddu'n sylweddol dros y degawd diwethaf, yn enwedig ymhlith nyrsio oedolion. Fodd bynnag, mae'r galw am nyrsio hefyd yn cynyddu'n sylweddol, sy'n gwaethygu'r bwlch rhwng y gofynion a roddir ar ein gweithlu a niferoedd cyffredinol y nyrsys.

Ffrwd Waith 2 - Addysg a Hyfforddiant.

Amcan: Sicrhau bod trefniadau ar waith i wneud y mwyaf o nifer y graddedigion nyrsio newydd sy'n ymuno a'r gweithlu.

Allbwn: Mae mentrau wedi'u datblygu i gynyddu nifer y myfyrwyr nyrsio. Mae rhai o'r rhain yn cynnwys datblygu cymhwyster lefel 4 i gefnogi myfyrwyr i fynd yn syth i flwyddyn 2 gradd nyrsio. At hynny, rydym yn datblygu rhaglenni i annog cyfranogiad mewn nyrsio gan grwpiau lleiafrifol, gan gynnwys dynion, cyn-filwyr a pobl o ardaloedd gwledig.

Ffrwd Waith 3 - Cynllun Cadw a Chanllawiau.

Amcan: Lleihau ymadawyr a chynyddu cyfraddau cyfranogiad yn y gweithlu nyrsio.

Allbwn: Mae Canllaw ac Adnodd Hunanasesu Cadw a Gwerthfawrogi ein Staff yn y GIG yng Nghymru ar y trywydd iawn i'w gyhoeddi erbyn diwedd mis Ebrill. Yn dilyn cyhoeddi'r Cynllun Gweithredu Gweithlu Cenedlaethol, bydd Cynllun Cadw Nyrsio yn cael ei gynhyrchu erbyn diwedd mis Ebrill hefyd.

Ffrwd Waith 4 - Recriwtio Rhyngwladol.

Amcan: Optimeiddio recriwtio rhyngwladol moesegol staff nyrsio cofrestredig i gyfrannu at gyflenwad yn y GIG Cymru.

Allbwn: Mae 400+ o nyrsys rhyngwladol ychwanegol wedi'u recriwtio i Fyrddau Iechyd yng Nghymru fel rhan o gam 1. Mae ffair yrfa wedi ei threfnu yn Kerala fel rhan o Femorandwm Cyd-ddealltwriaeth Rhynglywodraethol.

Ffrwd Waith 5 - Gweithlu Cefnogi Nyrsio

Amcan: optimeiddio'r gweithlu cymorth nyrsio yng Nghymru ar draws pob rôl er mwyn galluogi dull tîm.



Allbwn: Rydym wedi coladu astudiaethau achos ar draws y gweithlu Bandiau 2-4 i arddangos effaith gweithwyr cymorth nyrsio ar lwyfan Tregyrfa Mae delweddau wedi'u datblygu i arddangos y dysgu a llwybrau addysg ar gyfer gweithwyr cymorth gofal iechyd, nodi bylchau a darparu argymhellion. Yn ogystal â chrynodeb o waith y gweithlu HCSW hyd yma a rolau band 4 cenedlaethol.

Cipolwg ar Gam 2

Targedwyd Cam 1 at y pum maes blaenoriaeth hynny.

Mae Cam 2 yn canolbwyntio ar gynhyrchu Cynllun Gweithlu Nyrsio Strategol Cymru. Dechreuodd hyn ym mis Ebrill 2023 a daw i ben ym mis Mawrth 2024. Bydd prif fusnes cam 2 yn cynnwys:

- Ymgysylltu â'r gweithlu nyrsio.
- Ysgrifennu'r Cynllun Gweithlu Nyrsio Strategol.
- Yr ymgynghoriad ar y Cynllun Gweithlu Nyrsio Strategol.
- Mireinio a chostio'r Cynllun Gweithlu Nyrsio Strategol.
- Lansio a chyhoeddi'r Cynllun Gweithlu Nyrsio Strategol.



Ymgysylltiad y gweithlu

Mae'n bryd gwrando ar ein nyrsys. Mae 'Clever Together', cwmni ymgysylltu sy'n gweithio gydag AaGIC ar y cynllun gweithlu nyrsio, yn dechrau ymgysylltu â'r gweithlu nyrsio o fis Mai 2023. Bydd hyn yn digwydd ar ffurf sgwrs agored, ddienw ar lwyfan ar-lein. Bydd hyn yn rhoi'r cyfle i'n gweithlu leisio'u barn yn rhydd, rhoi mewnwelediad i ni o brofiadau bywyd, a chyd-greu'r cynllun. Cadwch eich llygaid ar agor am y prosiect cyffrous hwn!

Dyma Charlie a Lucy o dîm NWP yn mynychu Cynhadledd Wanwyn Cynllunio'r Gweithlu AaGIC, gan arddangos datblygiad y Cynllun Gweithlu Nyrsio hyd yn hyn – am ddiwrnod llawn hwyl!

Dilynwch ni

HEIW.NHS | @HEIW_NHS | Health Education and Improvement Wales | HEIW